# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Rhagfyr 9fed 2025**

1. **Presennol. Cynghorwyr:**
**Gwilym Jones (Cadeirydd), Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Karena Owens, Edward Naish, Jeremy Davies**
**Elfyn Lewis (Clerc)**
**Absennol: Neb.**

2. **Ymddiheuriadau. Cynghorwyr:**
**Llywelyn Rhys, Glenda Murray, Dr. Melfyn Edwards, Michael Roberts**

3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion:-**
**a) Cyfarfod Llawn Tachwedd 11 2025**
**Cafwyd yn gywir. Cynnig. Alwyn Gruffydd. Eilio. Jeremy Davies.**
**b) Cyfarfod Cyllid Tachwedd 25 2025**
**Cafwyd yn gywir. Cynnig. Alwyn Gruffydd. Eilio. Jeremy Davies.**
**c) Cyfarfod Eiddo Tachwedd 25 2025**
**Cafwyd yn gywir. Cynnig. Alwyn Gruffydd. Eilio. Jeremy Davies.**

4. **Adroddiad y Cadeirydd:**
Mynegwyd pryder am y sefyllfa diweddaraf ynglyn a chael meddygfa newydd ym Mhorthmadog. Yn bennaf, roedd pryder mawr bod lleoliad addas dal heb ei benderfynu. Gobeithwyd y buasai meddygfa newydd ar agor erbyn 2027 ond roedd pryder na fuasai yn barod tan 2030. Roedd Porthmadog yn 7fed ar y rhestr blaenoriaethol.

5. **Adroddiad y Clerc:**

   1. **Cae Pawb.**
   Bydd y biliau am 2026-7 yn mynd allan cyn diwedd y flwyddyn.

   2. **Bryn Coffa.**
   Rhestr glanhau y safle.
   Rhagfyr – Jeremy Davies
   Ionawr – Elfyn Lewis

   3. **Cronfa Gwynedd Ni.**
   Roedd caniatad wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd i osod y meinciau yn Stryd Fawr Porthmadog ac ym Morth-y-Gest (gweler Gohebiaeth).
   Roedd caniatad i osod y raciau beic yn Maes Parcio Llyn Bach dal heb gyrraedd Y Clerc (gweler Gohebiaeth).

   4. **Noson goleuo Port /Goleuadau Nadolig.**
   Cafwyd noson arbennig ar Dachwedd 28 i roi’r goleuadau ymlaen ar y goeden Nadolig yn Y Parc ac yn Stryd Fawr Porthmadog. Amcangyfrifir bod oddeutu 300 o bobl wedi mynychu. Roedd band Batala Bermo wedi bod yn llwyddiant mawr. Mwynhawyd y canu carolau gan blant ysgolion lleol. Aeth dros 120 o blant i’r

Ganolfan i weld Santa Clos ac i dderbyn anrhegion ac i greu gwaith celfi traddodiadol yn ogystal a gweld ffilm Nadoligaidd. Oll wedi ei drefnu gan Pauline Williams, rheolwraig Y Ganolfan.

5. **Llochesi bws.**
   Lloches bws Steshon. Aros am ateb gan Cyngor Gwynedd ar bwy sy'n gyfrifol am roi logos Traws Cymru yn ol ar y lloches.

6. **Siambr Farchnad.**
   Bwriedir trefnu cyfarfod arall yn ystod Mis Ionawr.

7. **Cae Chwarae Bodawen – Y Grid Cenedlaethol. Fishergerman.**
   Bydd taliad o £7259.33 i Gyngor Tref Porthmadog yn ystod Rhagfyr 2025 sef 25% o'r cyfanswm o £29037.31. Bydd 50% arall o'r cyfanswm yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref pan fydd y gwaith yn dechrau a'r 25% sydd yn weddill ar ol cwblhau'r gwaith.

8. **Eifion Wyn.**
   Mae'r pwyllgor i gofnodi canmlwyddiant marwolaeth Eifion Wyn eisoes wedi cyfarfod a cafwyd diweddariad gan Karena Owens. Mae sawl menter eisoes ar y gweill gan gynnwys cyngerdd yn Y Ganolfan.

**6. Datgan diddordeb.**
Dim datganiad.

**7. CEISIADAU CYNLLUNIO:**
Dim cais wedi dod i law.

**8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF:**
Cytunwyd i barhau â'r trafodaethau i osod y Praesept ar gyfer 2026-7 ac i ddod i benderfyniad yn nghyfarfod Mis Ionawr o'r Cyngor Tre.

**9. MATERION I'W DWYN GERBRON:**
Dim.

10. **Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Ionawr 13eg 2026 yw Ionawr 3ydd 2026, (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor").*

- Cyng. Carol Hayes :- Cynnig bod Y Cyngor Tre yn hysbysu seddi gwag yn fwy rheolaidd.
- Cyng. Jeremy Davies :- Cynnig bod Y Cyngor Tre yn cysylltu gyda'r Swyddfa Bost i nodi bod cwsmeriaid yn gorfod ciwio ar y palmant y tu allan i'r adeilad newydd a hynny ar adegau o law.
- Cyng. Alwyn Gruffydd:- Cynnig bod Y Cyngor Tre yn cysylltu gyda'r Swyddfa Bost i ofyn paham bod y Saesneg uwchben Y Gymraeg ar yr arwydd tu allan i'r swyddfa newydd.

**11. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb:**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Steffan Jones (Cyngor Gwynedd) | Holi paham mae arwydd Stryd Dulyn wedi diflannu. **Y Clerc i gysylltu gyda swyddog Cyngor Gwynedd eto.** |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | Ruhi Pugh (fishergerman) | Diweddariad ar waith y Grid Cenedlaethol yn Cae Bodawen. **Daeth ateb yn y cyfamser nad oedd unrhyw waith am ddechrau ar Gae Chwarae Bodawen tan Gorffennaf 2026.** |
| **3** | Cyngor Gwynedd | Aros am ateb i ymholiad am gyflwr llwybr Cae Llety (arlein). **Y Clerc i gysylltu gyda swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd yn uniongyrchol.** |

**12. GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Yr Urdd | Apel ariannol **Ystyried y cais yng nghyfarfod Mis Chwefror.** |
| 2 | Cyngor Gwynedd | Toiledau cyhoeddus **Derbyn y wybodaeth.** |
| 3 | Cai Rees Jones (Cyngor Gwynedd) | Meinciau newydd. **Y Clerc i barhau gyda'r cais ariannol nawr roedd caniatad gan Cyngor Gwynedd i osod y meinciau yn eu lle.** |
| 4 | Rhian George (Cyngor Gwynedd) | Y Parc Porthmadog. **Derbyn y wybodaeth.** |
| 5 | Richard Williams | Ffynhonnell grant i wella'r Parc. **Roedd y Cyng. Jeremy Davies o'r farn y gellid creu grwp cymunedol i edrych ar ol Y Parc ac yn enwedig i edrych ar ol y gwlau blodau a phlanigion. Fel sydd yn digwydd ym Morth-y-Gest.** |
| 6 | Nick Cutmore (Rheilffordd Ucheldir Cymru) | Byrddau gwybodaeth. **Y Clerc i gynghori cynrhychiolydd Rheilffordd Ucheldir Cymru i gysylltu a Chyngor Gwynedd ynglyn a'r hysbysfyrddau.** |
| 7 | Rob Dixon | Peiriant talu Maes Parcio Y Parc **Y Clerc i gynghori iddo gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.** |
| 8 | Trevor Jones | Lon wrth croesfan Rheilffordd Cambria **Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i gael eglurhad ai nhw ynta Network Rail sydd yn gyfrifol am y lon wrth y groesfan.** |
| 9 | Aled Griffiths | Cais i fod yn gynghorydd. **Cyfetholwyd Aled Griffiths i sedd yn Ward Tremadog ar Gyngor Tref Porthmadog. Y Cyng. Karena Owens yn cynnig. Y Cyng. Alwyn Gruffydd yn eilio. Derbynwyd yn unfrydol.** |
| 10 | Tim Tacluso Cyngor Gwynedd | Amserlen gwaith ym Mhorthmadog. **Pendefynwyd i'r Clerc gysylltu a Thim Tacluso Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt flaenoriaethu rhan o'r gwaith yn enwedig cael gwared o chwyn yn strydoedd cefn Porthmadog ac wrth yr hen swyddfa bost a rhannau o Forth-y-Gest.** |
| | | |

**13. MATERION ARIANNOL :**

**Taliadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê  Hydref 2025 | £60-67 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Hydref 2025 | £1408.58 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Hydref 2025 | £352.14 |
| 4 | Designer Signs North Wales | Trwshio Lloches Bws Steshon | £825.60 |
| 5 | RJ Electrics | Goleuadau Nadolig Porthmadog (ychwanegol) | £369.77 |
| 6 | RJ Electrics | Goleuadau Nadolig Porthmadog | £8,993.40 |

**Awdurdodwyd y taliadau uchod. Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Jeremy Davies yn eilio.**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog banc | £42-55 |
| | | |

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Elfyn Lewis (Clerc)
Rhagfyr 14eg, 2025

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*